



Cynllun Cynefin
Cymorth Cynllunio Cymru

PROFA FO!

Casglu Tystiolaeth dan Arweiniad y Gymuned

Canllawiau Cymunedol
Cynllun Cynefin Kickstarter **4/6**



PROFA FO!

Casglu Tystiolaeth dan Arweiniad y Gymuned

Canllawiau Cymunedol Cynllun Cynefin Kickstarter 4/6

Beth yw'r ddogfen hon?



Mae'r canllaw hwn yn archwilio casglu tystiolaeth dan arweiniad y gymuned.

Mae'n esbonio pam mae tystiolaeth yn bwysig i wneud cynlluniau cadarn ac yn darparu cyfres o becynnau cymorth ymarferol y gallwch eu defnyddio i gasglu gwahanol fathau o dystiolaeth ar gyfer eich cynllun. Paratowyd y canllaw hwn gan Gymorth Cynllunio Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r prosiect 'Cynllun Cynefin Kickstarter' gydag arian gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU Cymru.

Ar gyfer pwy y mae o?



Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref a / neu grwpiau cymunedol yng Nghonwy sydd naill ai:

- Wedi cwblhau Cynllun Cynefin Kickstarter ac yn ystyried y camau nesaf, neu:
- Yn ystyried cynhyrchu rhyw fath o gynllun cymunedol ac maen nhw'n pendroni ble i ddechrau.

Mae'r canllaw yn rhan o gyfres sy'n archwilio cynllunio dan arweiniad y gymuned; Gellir lawrlwytho'r canllawiau hyn o www.placeplans.org.uk/conwyguides

Cynnwys

Pam fod angen 'tystiolaeth'?	444
Dod o hyd i'ch Tystiolaeth	666
Sefydlu 'Tîm Tystiolaeth'	66
Beth sydd yna'n barod?	77
Llenwi'r Bylchau yn Lleol	88
Enghraifft Ymarferol 1: Cyfleusterau Lleol	999
Enghraifft Ymarferol 2: Lle Gwag yng Nghanol y Dref	101010
Enghraifft Ymarferol 3: Twristiaeth	1212
Enghraifft Ymarferol 4: Mannau Agored Cyhoeddus	141414
Enghraifft Ymarferol 5: Treftadaeth Leol	161616
Enghraifft Ymarferol 6: Aseu a Chanllawiau'r Safle Datblygu	181818
Enghraifft Ymarferol 7: Cymeriad a Dylunio	202020

Pam fod angen 'tystiolaeth'?

Mae tystiolaeth yn bwysig iawn wrth wneud cynlluniau.

Yn aml, bydd gan gymunedau farn gref am yr hyn maen nhw ei eisiau neu ei angen, ond bydd cynllun cryf yn archwilio'r dymuniadau hyn ac mae bydd angen iddo helpu i sefydlu'r **ffeithiau** ynghylch mater.



Enghraifft 1:

Fel rhan o brosiect ar draws yr ardal, cwynodd y Grŵp Traffig o bobl leol yn arw am 'bobl o'r tu allan' yn gyrru'n rhy gyflym drwy eu pentrefi. Fodd bynnag, ar ôl meddwl ymhellach, dywedodd un aelod o'r grŵp o'r diwedd "Rhaid i ni fod yn onest; nid pobl o'r tu allan yw'r gwaethaf, ond ni sy'n byw yma".



Yn y diwedd, cytunodd holl aelodau eraill y grŵp. Yna fe wnaeth y tîm Priffyrdd rywfaint o wirio ffurfiol ac roedd y dystiolaeth yn glir - y rhai oedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r goryrru oedd y bobl leol. Pe bai'r tîm Priffyrdd wedi derbyn yr esboniad cyntaf yn unig, fe fyddai amser ac arian cyhoeddus wedi'i wario ar yr ateb anghywir.

Enghraifft 2:

Dechreuwyd ymgyrch i gadw'r un siop leol oedd ar ôl mewn pentref ar agor, a oedd dan fygythiad i gau. Fe wnaeth bron i 90% o drigolion lofnodi'r ddeiseb i gadw'r siop.



Yna daeth i'r amlwg bod un canlyniad o arolwg pentref, a wnaed ond dwy flynedd ynghynt, yn dangos bod llai na 10% o bobl leol wedi defnyddio'r siop mewn gwirionedd, gan ffafrio mynd i archfarchnad gyfagos! Pam cael mynd i'r drafferth o gadw siop ar agor os nad yw pobl leol prin yn ei defnyddio?

Gall tystiolaeth fod mewn amrywiol ffurfiau: ffeithiau a ffigurau, ffotograffau, mapiau, cofnodion hanesyddol ac yn y blaen. Mae barn a syniadau cymunedol yn rhan hanfodol o hynny, gan ddod o 'arolygon' o wahanol fathau (gweler y Pecyn Cymorth Ymgysylltu Cymunedol hefyd). Ond, fel uchod, mae bob amser yn bwysig gwirio beth sydd fel arfer yn syniadau neu farn bersonol yn erbyn rhyw fath o dystiolaeth go iawn.

Nid yw hynny'n golygu bod barn a syniadau cymunedol bob amser yn anghywir; maen nhw'n iawn yn amlach na pheidio ond mae dal angen gwirio. Yn union fel mewn llys barn, pan ddywed tyst "*Fe'i gwelais yn gafael yn y bag*" ac mae hynny'n cael ei ategu gan rywun yn dweud "*Gwelais hynny hefyd*", mae'n dal angen gwirio hynny pan ddywed arbenigwr "*Roedd hi'n rhy dywyll i unrhyw un mor bell â hynny i ffwrdd i allu gweld yn iawn*".



O ran unrhyw Gynllun Cynefin neu Gynllun Cymunedol, mae angen ategu eich cynigion a'ch prosiectau gyda rhyw fath o dystiolaeth. Bydd hynny'n rhoi pwysau go iawn i'ch cynigion, osgoi cwestiynu neu hyd yn oed heriau i'ch Cynllun yn ddiweddarach. Yn bwysicaf oll, bydd hefyd yn sicrhau bod adnoddau gwerthfawr – eich rhai chi, rhai'r awdurdod lleol ac eraill - yn cael eu defnyddio i gael yr effaith orau ar faterion a phroblemau gwirioneddol.

Er bod cael cymaint o bobl â phosibl yn ymwneud â'ch ymarferiad casglu tystiolaeth yn syniad da iawn - yn ôl i ymgysylltu â'r gymuned eto – mae hynny hefyd yn helpu i wneud y gorau o'r siawns o ganlyniadau da ac yn helpu pobl i werthfawrogi pam na fydd yr hyn a allai ymddangos fel syniadau hunan-amlwg (pobl o'r tu allan yn goryrru er enghraifft) yn gwbl gywir.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol hefyd nad yw casglu tystiolaeth yn broses wyddonol, yn bennaf oherwydd na ellir datrys rhai materion nodweddiadol o'r Cynllun yn llawn; mae bob amser mater o farn.

Ac yn olaf, pan fyddwch chi'n edrych yn ôl, mae'n debyg y byddwch chi'n gorffen gyda mwy o dystiolaeth nag oedd ei hangen arnoch. Ond mae hynny'n beth da felly anwybyddwch hynny.

Dod o hyd i'ch Tystiolaeth

Peidiwch â lansio i mewn i hyn ar hap.

1. Dechreuwch drwy feddwl yn ofalus am eich amcanion a chytuno arnynt (gan gynnwys gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) - h.y. pa faterion neu bynciau rydych chi am i'ch Cynllun eu cwmpasu. A byddwch yn ymwybodol y gall rhai materion newydd ddod i'r amlwg hanner ffordd drwodd.
2. Sefydlwch pa dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob pwnc – edrychwch ar gynlluniau eraill, siaradwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) neu eraill a gwirio unrhyw ganllawiau (gweler yn ddiweddarach).
3. Penderfynwch pwy all wneud y gwaith casglu tystiolaeth orau.
4. Gwiriwch pa dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ac yna, a dim ond wedyn, gweithio allan beth sydd ei angen i ychwanegu at hynny.
5. Ychwanegwch at yr hyn sydd eisoes yn bodoli, llenwch y bylchau, lleoleiddiwch ddeunydd i'r ardal benodol chi a gwnewch yn siŵr bod eich holl dystiolaeth mor gyfoes â phosibl.



Mae mwy i ddilyn ar gamau 3, 4 a 5.

Sefydlu 'Tîm Tystiolaeth'

Bydd llawer i'w wneud bron yn sicr, felly po fwyaf o bobl y gallwch chi eu perswadio i gymryd rhan y tu hwnt i'ch Gweithgor, y gorau. Yn ogystal â rhannu'r llwyth, mae hyn yn rhoi rhan go iawn i'r bobl eraill hynny yn y cynllun sy'n esblygu; mwy nag y byddant yn ei gael o'r ymgysylltu cymunedol ehangach. Mae'n help mawr i bobl deimlo bod y Cynllun yn perthyn iddyn nhw oherwydd fel hynny, mi fydd!



Mantais arall hyn yw y gall leihau pob rhan o'r gwaith i rywbeth na fydd yn tynnu'n drwm ar amser unrhyw un person. Mae pobl yn aml yn gyndyn o gymryd rhan oherwydd eu bod yn meddwl y bydd eu bywydau yn diflannu. Gofynnwch iddyn nhw am un dasg 45 munud neu awr yn unig a bydd nifer annisgwyl o bobl yn hapus i'w wneud.

Un ffordd dda o ledaenu ond hefyd cadw rheolaeth dda ar y gwaith yw i bob aelod o'ch Grŵp Llywio gymryd cyfrifoldeb am un pwnc (neu efallai dau) a gwahodd ambell un o'u ffrindiau neu gymdogion i ymuno. Efallai y bydd y person arweiniol pwnc hyd yn oed yn adnabod, neu'n gallu dod o hyd i rywun sydd â diddordebau perthnasol, efallai hyd yn oed rhai gwybodaeth neu gysylltiadau cychwynnol. Os yw'r dystiolaeth sydd ei angen yn ymwneud â gwahanol feysydd yn ardal eich Cyngor Cymuned, sy'n

awgrymu cryn dipyn i'w wneud, ceisiwch ddefnyddio'ch rhwydweithiau lleol i ddod o hyd i grwpiau bach o 3/4/5 o bobl ar gyfer pob ardal lai.

Y ffordd allweddol arall o ehangu eich tîm yw ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau lleol i arwain ar dasgau penodol. Mewn gwirionedd, mae'n debygol y bydd gan rai o'r grwpiau hynny dystiolaeth ddefnyddiol yn barod. Mae mwy o gymorth ar hyn, a rhai enghreifftiau, yn yr adrannau sy'n dilyn.

Mae lefel arall hefyd i wneud i hyn weithio'n effeithiol. Gan fod pedair tref/ardal yn ymwneud â'r fenter CBSC hon, byddai'n dda iawn rhannu profiad wrth i chi fynd ymlaen – gan adael i eraill wybod pa mor dda (neu beidio) y gwnaethoch chi eu rheoli, pa wersi a ddysgoch a beth oedd eich canlyniadau o gael y dystiolaeth ar bwnc X a chlywed yn ôl gan eraill sut y daethant ymlaen â phwnc Y neu Z. Bydd hynny'n arbed pob un ohonoch chi rhag gorfod dysgu'r ffordd galed!

Beth sydd yna'n barod?

Mae llawer o'r dystiolaeth rydych chi'n debygol o fod ei hangen eisoes yn bodoli a dim ond angen ei ganfod (er nad yw hynny bob amser mor hawdd ag y mae'n swnio), felly peidiwch â mynd i ddechrau o'r newydd os yw'r hyn sydd ei angen arnoch eisoes ar gael.



Mae rhai ffynonellau allweddol o dystiolaeth y tu hwnt i'ch cymuned yn cynnwys:

- Y cyfrifiad (wir yn ddefnyddiol i ddadlau dros fathau priodol lleol o dai er enghraifft).
- Data sylfaenol fesul tref gan Deall Lleoedd Cymru (<http://www.understandingwelshplaces.wales/en/home/>)
- CBSC (sy'n ymdrin â llawer o bynciau perthnasol ond yn aml yn gyffredinol iawn*).
- Gwasanaeth iechyd a'r Heddlu (yn aml yn ddefnyddiol iawn ond byddwch yn ymwybodol o faterion cyfrinachedd).
- Asiantaethau Gwirfoddol (yn aml yn fanwl iawn ar eu pwnc penodol, e.e. iechyd meddwl).
- Cwmnïau preifat (gall rhai, os nad llawer, fod yn ddefnyddiol iawn ond gwyliwch am unrhyw beth y gallent geisio yn ôl).

** Mae llawer o faterion perthnasol yn cael eu cwmpasu gan CBSC, a byddant bron yn sicr â gwybodaeth ddefnyddiol iawn am y rhain i gyd, felly ni allwn eu rhestru i gyd yma. Y peth gorau yw defnyddio cyswllt allweddol a fydd yn eich helpu gyda llawer o hyn.*

Gall dystiolaeth sydd ar gael gan CBSC (neu eraill) fod yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd ei bod i safonau 'swyddogol' felly mae bob amser yn ganllaw da i'r hyn y gallech ei gynhyrchu ar eich lefel leol. Fodd bynnag, gall fod yn gyffredinol iawn a ddim yn ddigon penodol i'ch lle penodol. Data lleol iawn ar anghenion tai, symudiadau traffig ac yn y blaen fydd beth fydd ei angen ar gyfer eich Cynllun.

Gall hefyd fod yn syndod pa dystiolaeth sydd ar gael yn eich cymuned, o bosib hyd yn oed i safon 'broffesiynol'. Dyma ychydig o enghreifftiau yn unig, ac chi sy'n adnabod eich cymuned orau ac mae'n siŵr y gallwch ddod o hyd i fwy:


- ✓ Gall cymdeithas ddinesig neu hanes gael manylion adeiladau a strwythurau, digwyddiadau neu gynlluniau ardal/tref flaenorol.
- ✓ Efallai bod grŵp cerdded yn gwybod nid yn unig lle mae'r llwybrau troed statudol ond lle mae'r rhai eraill, eu cyflwr a sut maen nhw i gyd yn cysylltu â'i gilydd.
- ✓ Efallai bod gan grŵp bywyd gwyllt lleol gofnodion trylwyr, efallai dros nifer o flynyddoedd, o bethau fel adar ac anifeiliaid a choed allweddol sydd wedi'u gweld.
- ✓ Mae pwy bynnag sy'n rhedeg eich neuadd gymunedol yn debygol o gael cofnodion o bwy oedd yn arfer ei ddefnyddio, sy'n ei ddefnyddio nawr, pa mor dda mae'n cael ei ddefnyddio ac yn y blaen.

Mae hyn i gyd yn swnio'n dda ond dau rybudd bach. Doedd grwpiau lleol sydd eisoes â gwybodaeth ddim yn cynhyrchu hynny er lles eich Cynllun chi, felly mae'n bosib na fydd rhywfaint o wybodaeth yn berthnasol a bydd bron bob amser rhai bylchau i'w llenwi a pheth diweddarau angenrheidiol. Yn ogystal, mae grwpiau o'r fath yn aml yn cynnwys 'selogion'; Mae hynny'n grêt ond maen nhw'n gallu mynd dros ben llestri efo beth a faint maen nhw'n ei gynhyrchu - 'llyfr' yn hytrach na thudalen neu ddwy! Mae popeth y gallant ei gynnig felly angen ei wirio'n gyffredinol, ei docio mae'n debyg ac yn sicr ei wirio am berthnasedd i'ch Cynllun penodol chi.

Llenwi'r bylchau yn lleol

Nawr rydych chi ar eich pen eich hun. Wel.... ie a na!

Sut yn union ydych chi'n asesu cymeriad neu'n gwirio parcio neu chwilio am safleoedd gwag yng nghanol y dref? Bydd gan weithwyr proffesiynol eu ffurflenni asesu a thafleuni arolygu eu hunain ar gyfer rhai pethau – gweler y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol fel enghraifft: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf>



Gall yr asesiadau hyn fod yn or-gymhleth at eich dibenion chi a, hyd yn oed os ydynt wedi'u haddasu at ddefnydd lleol, gallant barhau i fethu â bod yn wirioneddol 'gyfeillgar i'r gymuned'. Mae cymaint o bynciau gwahanol y gallai Cynllun ddymuno eu hystyried, ac mae'n anochel y byddai angen amrywiadau lleol, na allai'r nodyn hwn fyth gwmpasu pob un ohonynt. Yr hyn sy'n dilyn yw rhai enghreifftiau o ddulliau rydyn ni'n gwybod sydd wedi gweithio i bobl leol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o bynciau a thechnegau; rhai'n gyflym ac yn hawdd, rhai'n fwy heriol ond yn dal i fod (fel mae eraill wedi profi) yn gyraeddadwy. Mae'n bosib, os oes gennych bwnc gwahanol i weithio arno, efallai y byddwch chi'n gallu addasu techneg ychydig a gwneud iddo weithio i'r pwnc arall hwnnw.

Enghraifft Ymarferol 1: Cyfleusterau Lleol

Y BROBLEM: A oes gennym ni ddigon o gyfleusterau ac yn y llefydd iawn, ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n dda, ydyn nhw mewn cyflwr da, oes yna ddigon o lefydd parcio ac ati?

Dyma ddarn o'r hyn a nododd grŵp mewn pentref mawr, gydag enghreifftiau o sylwadau defnyddiol.

Ysgolion a lleoedd eraill o ddysgu

- Ysgol gynradd 1
- Ysgol Gynradd 2
- Ysgol Uwchradd
- Canolfan ddysgu oedolion

Cyfleusterau meddygol

- Ysbyty
- Meddygfa 1
- Meddygfa 2
- Deintydd 1
- Clinig 1

Hamdden a chwaraeon

- Clwb Rygbi – eu cae a'u hystafelloedd newid eu hunain ynghyd â thŷ clwb (ar gael i'w llogi)
- Clwb Pêl-droed – Maes Hamdden; cae ac ystafelloedd newid
- Clwb Golf – yn cael cyfarfodydd achlysurol yn nhafarn y Six Bells
- Clwb Cerdded - teithiau cerdded wythnosol yn dechrau/gorffen yn nhafarn y Fox & Hounds
- Royal British Legion - yn cwrdd yn y Dafarn

Tiroedd hamdden, coetiroedd hygyrch, rhandiroedd

- Maes Hamdden – ar gael i'w logi
- Franks Wood - sy'n eiddo i'n Cyngor, mynediad cyhoeddus llawn
- Rhandiroedd cyngor – ar hyn o bryd yn llawn gyda rhestr aros

Cyfleusterau Chwarae

- Maes Hamdden - a reolir gan y Cyngor, offer amrywiol, cyflwr da
- Man chwarae ysgolion cynradd - wedi'i reoli gan yr ysgol, bob amser ar agor, offer amrywiol, cyflwr da
- Ardal Chwarae Martins Croft - rheolir gan awdurdod lleol, offer cyfyngedig, cyflwr gwael
- Pinewood Play Area - rheolir gan awdurdod lleol, ar gau ar hyn o bryd

Canolfannau ieuenctid

- Kidspace – ar agor 3 noson yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn, ystafelloedd mewn hen dŷ, nid mewn cyflwr gwych
- Eglwys Fethodistaidd – yn rhedeg dydd Mawrth a dydd Iau i blant <11


Neuadd Pentref

- Llogi allan i bawb. Yn cael ei ddefnyddio 80-85%
- *Grwpiau Defnyddwyr Wythnosol*: Clwb Cinio; Gyfa Chwist; *Martial Arts*; Grŵp Celf; Grŵp Rhiant a Phlentyn; Theatr Gerdd
- *Grwpiau Defnyddwyr Misol*: Sinema; Clwb Garddio; Grŵp Hanes; Sefydliad y Merched; Cyfarfodydd Pwyllgor Neuadd y Pentref
- *Grwpiau Blynyddol*: Theatr Gerdd dwy sioe flynyddol.
- *Defnyddwyr Achlysurol*: Sesiynau Adeiladu Set Theatr; Partïon Pen-blwydd; Derbyniadau Priodas a Phartïon Gyda'r Nos; Digwyddiadau Codi Arian

Sut i'w wneud

Mae grŵp o 3/4 o bobl yn berffaith ar gyfer hyn.

- Gall ddechrau fel gwaith desg gyda'r hyn y mae'r grŵp eisoes yn ei wybod ac yna gellir ychwanegu ato drwy ofyn o gwmpas a cherdded o gwmpas.
- Mae hyn yn cynnwys rhestru'r holl gyfleusterau lleol, gyda rhywfaint o sylwebaeth fer fel y bo'n briodol (peidiwch ag oedi gyda'r cynnwys uchod os nad yw'n berthnasol i'ch lle chi).
- Dylid mapio cyfleusterau yn ogystal â'u rhestru - gall hyn ddangos rhannau o'ch ardal sydd heb gyfleusterau.
- Gall lluniau hefyd fod yn ddefnyddiol.



Enghraifft Ymarferol 2: Lle Gwag yng Nghanol y Dref

Y BROBLEM: Mae'n ymddangos bod llawer o ystafelloedd gwag uwchben siopau yng nghanol ein tref. Byddai'n wych pe gallem eu cael yn ôl i ddefnydd fel swyddfeydd neu fflatiau. Drwy wneud hynny, gallem ddarparu tai mwy amrywiol a chynyddu bywiogrwydd a nifer yr ymwelwyr i ganol ein tref. Felly sut mae gwirio beth sydd yna?



Mae'r enghraifft isod yn dangos ffurflen wedi'i llenwi ar gyfer un stryd ac yn amlwg yn dibynnu ar dystiolaeth weledol - dim angen mynd i mewn i lefydd! (Mae lleoliad y fynedfa yn bwysig os am ddefnyddio manau uchaf heb fynd trwy beth bynnag sydd ar y llawr gwaelod.)


Sut i'w wneud

- Gall un person wneud arolwg ar bob stryd felly mae rhannu'r dasg yn cadw'r llwyth gwaith i lawr.
- Cymerodd y ffurflen uchod lai na 1 awr i'w chwblhau.
- Mae angen ffurflenni gwag, clipfwrdd a beiro ar bob 'syrfëwr'.
- Mae'n syniad da teipio'r canlyniadau yn nes ymlaen.
- Addaswch fel sydd angen ar gyfer canol eich tref chi.

Defnydd o'r Llaur							Lleoliad mynediad preswyl	Nifer eiddo gyda Fflatiau	Cyfanswm nifer o Fflatiau
Cyfeiriad	Y Llaur Gwaelod	Llaur 1af	2il Llaur	3ydd Llaur	Islaur	Nodiadau			
	439	369	277	225	50			145	326
Swan House	Preswyl	Preswyl	Preswyl	Preswyl				1	15
2	Gwag	Preswyl	Preswyl	AMH		<i>Army Surplus</i> gynt	Drws stryd	1	1
3	<i>Peter Charles Hair Salon</i>	Ffotograffiaeth	Preswyl	Preswyl				1	1
	<i>Philip Price Photography</i>			AMH					
The Falcom	Mynediad i fflatiau	Ffotograffiaeth	Preswyl	AMH		3 eiddo yn y cefn		1	1
4	Gwag	Ffotograffiaeth	Preswyl	Preswyl			Trwy Falcon		
5	<i>Shuko</i>	Swyddfeydd	Swyddfeydd	AMH			Drws stryd	1	3
	Drws ochr i rhif 6								
6	Harrison Clark Shawcross	Swyddfeydd	Swyddfeydd	AMH		Cais wedi ei wneud am drosi swyddfa		0	
	Y fynedfa i Yard & Mews					Eiddo yn y cefn			
7	<i>Rossiter Books</i>	Swyddfeydd	AMH	AMH		<i>Corn Exchange, Swyddfeydd TC</i>		0	
	Giât i swyddfeydd ar y Llaur 1af								
8	Gwesty'r King's Head	Gwesty	Gwesty	AMH		6 o dai yn y cefn		1	6
9	<i>Indian Summer</i>	Preswyl	Preswyl	Preswyl			Drws stryd	1	5
10	<i>Avellino</i>	Preswyl	Preswyl	Preswyl	Cegin			1	1
11	Gwag	Preswyl	Preswyl	Preswyl				1	1
	Pigs Alley Mynediad i fflatiau Tuduraidd a fflat uwchben siop <i>Chinese Medicine</i>						Mynediad i 7 eiddo		
12	<i>Chinese Medicine</i>	Preswyl	Preswyl	?				1	1
13	<i>Tudor Sweets</i>	Preswyl	Preswyl	?				1	1
17	Gwesty Roswyn yn wag	Gwag	Gwag	AMH		Yn cael ei drosi i fflatiau		1	
18	Gwag	Preswyl	Preswyl	AMH				1	
19	Gwag	Preswyl	Preswyl	AMH				1	
20	<i>Enhanced Homes</i>	Preswyl	Preswyl	AMH				1	3

Enghraifft Ymarferol 3: Twristiaeth

Y BROBLEM: Mae twristiaeth yn bwysig iawn i'n tref ni. Rydyn ni'n gwybod beth sy'n cael ei ddarparu i ymwelwyr ond dydyn ni ddim wir yn gwybod pam maen nhw'n dod, am ba mor hir, beth maen nhw'n ei wneud pan maen nhw yma, beth maen nhw'n ei feddwl o'n tref ni ac yn y blaen. Sut gallwn ni ddarganfod hynny?



Wel ---- gofynnwch iddyn nhw! Mae un enghraifft o gwestiynau a ofynnwyd i ymwelwyr, a'r ffurf a ddefnyddiwyd, yn dilyn isod.

Arolwg Stryd i Dwristiaid
Dyddiad, amser, lleoliad:
A gawn ni ofyn am eich cod post cartref os gwelwch yn dda?
O lle'r ydych chi wedi dod heddiw? (Ddim bob amser yr un fath â chod post - efallai eu bod nhw'n aros gerllaw.)
Ers pryd ydych chi wedi bod yn aros yma, neu'n meddwl y byddwch chi'n aros, heddiw?
Os ydyn nhw'n aros yn y dref ble ac am ba hyd?
Beth wnaeth ichi ymweld â'n tref ni – dim ond diddordeb cyffredinol neu unrhyw beth penodol?
Beth ydych chi wedi ei wneud neu'n bwriadu ei wneud tra rydych chi yma? (Dim ond crwydro, cael lluniaeth, ymweld ag unrhyw beth penodol?)
Beth ydych chi wedi ei fwynhau neu yn ei fwynhau am ein tref ni?
Oes unrhyw beth nad ydych chi mor hapus â hynny amdano y gallem ei wella i ymwelwyr fel chi?
Unrhyw sylwadau eraill?

Sut i'w wneud

- Mae angen 4 neu 5 o bobl i wneud hyn yn ddelfrydol, sy'n hapus i stopio pobl ar y stryd a gwirio os ydyn nhw'n ymwelwyr.
- Mae'n well cyfweld (sydd ond yn cymryd cwpl o funudau) dros ychydig o ddiwrnodau ac amseroedd gwahanol (yn ystod yr wythnos, penwythnos, bore, prynhawn) a hefyd nid yn y prif dymor twristaidd yn unig.
- Y lle gorau i wneud hyn yw yng nghanol eich tref ac mae dwy ffordd wedi'u profi o'i wneud:
 - Y ffordd gyntaf yw eu stopio nhw, esbonio pam rydych chi'n eu stopio nhw a gofyn a ydyn nhw'n hapus i ateb ambell gwestiwn, gan nodi unrhyw ganlyniadau ar ffurf syml fel yr uchod.
 - Yr ail ffordd (fe allech chi wneud tipyn o'r ddau) yw gofyn i ambell i siopwr* wneud yr un peth pan fydd pobl yn dod i'w siop. (* Y siopau hynny sy'n fwy tebygol o gael eu defnyddio gan ymwelwyr.)

Awgrym:


Byddwch yn ymwybodol o reolau GDPR!

Cadwch holiaduron a ffurflenni adborth yn ddiennw felly dim ond y data sydd ei angen arnoch fydd gennych. Gofynnwch gwestiynau am oedran, crefydd neu nodweddion eraill os ydyn nhw'n berthnasol i'ch adborth yn unig.



Enghraifft Ymarferol 4: Mannau Agored Cyhoeddus

Y BROBLEM: Rydym yn awyddus i gadw a gwella ein mannau agored cyhoeddus, ac efallai ychwanegu atynt, ond a ydynt i gyd yn cael eu defnyddio'n dda, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb? Sut gallwn ni ddarganfod hynny?



Dyma ffurflen enghreifftiol sy'n cael ei defnyddio gan gymuned yng Nghymru.


Arolwg Mannau Agored Cyhoeddus
Enw'r man agored:
Lleoliad:
Disgrifiad sylfaenol (Pa nodweddion neu elfennau penodol sydd yno: ardaloedd glaswelltog, ardaloedd coediog, llwybrau cerdded, seddi, goleuadau, gwaith celf, ardaloedd chwarae, adeiladau ac ati)
Hygyrchedd? (O fewn pellter cerdded lleol hawdd, parcio ceir ar y safle neu'n gyfagos, cyswllt trafnidiaeth gyhoeddus ac ati)
Faint mae'n cael ei ddefnyddio? (E.e. defnydd trwm, ysgafn, prin, byth, drwy'r amser, penwythnosau, haf yn unig ac ati, gan oedolion, pobl hŷn, teuluoedd, plant ac ati)
Diogelwch? (A yw'n teimlo'n ddiogel, arwyddion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ddiogel gyda'r nosau ac ati)
Cyflwr cyffredinol? (Da iawn, da, iawn, gwael, gwael iawn, da mewn rhannau)
Lle i wella? (Mae wir angen
Sylwadau Eraill

Sut i'w wneud

- Mae'n well dechrau'r dasg gyda 2/3 o bobl yn gwneud y rhestru a'r mapio.
- Oherwydd mai'r unig bobl sy'n debygol o allu rhoi atebion defnyddiol i rai cwestiynau yw'r rhai sy'n byw ger y gofodau hynny, mae angen i chi wneud ychydig o waith ditectif a dod o hyd iddyn nhw.
- Man cychwyn ar gyfer hyn yw map sy'n lleoli pob man agored cyhoeddus yn eich ardal chi.
- Bydd angen map, pad, pen a ffurflen arnoch, un o'ch 2/3 person gwreiddiol ac yn ddelfrydol un person lleol ar gyfer pob lle agored.
- Wedyn mae'n fater o gerdded o gwmpas a chymryd nodiadau ar bob lle agored.
- Gall rhai lluniau fod yn ddefnyddiol.

Enghraifft Ymarferol 5: Treftadaeth Leol

Y BROBLEM: Rydym yn gwybod neu'n gallu darganfod cryn dipyn am ein Hardaloedd Cadwraeth Lleol a'n Hadeiladau Rhestredig ond mae llawer mwy o adeiladau, nodweddion, arwyddion, seddi, cofebion ac ati sy'n bwysig iawn i ni (ac o ddiddordeb i ymwelwyr mae'n debyg) yr hoffem eu gwarchod a'u dathlu.



Allwn ni wneud hyn?

Yr ateb yw 'gallwn!' Mae Cadw yn darparu canllawiau i'ch galluogi i 'restru' pob math o adeiladau, parciau, gerddi a safleoedd archeolegol hefyd, yn ogystal â nodweddion bach (hyd yn oed bach iawn) a nodweddion hanesyddol arwyddocaol (gweler enghreifftiau yn ddiweddarach). Mae rhestru pethau o'r fath sy'n bwysig i chi yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad iddyn nhw yn y system gynllunio.

Bydd CBSC yn ddibynnol iawn ar gymunedau lleol sy'n cyflwyno awgrymiadau am yr hyn a elwir yn 'Rhestru Lleol' oherwydd mae'n debyg nad oes ganddynt yr amser, na'r wybodaeth leol fanwl, i wneud hynny eu hunain. Dyma'r ddolen gyswllt i ganllawiau Cadw:

<https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest>

Rhaid i eitemau a gyflwynir fodloni rhai meini prawf allweddol. I Cadw y rhain yw (gyda rhai esboniadau wedi eu hychwanegu):

- ✓ Diddordeb esthetig: pensaerniaeth a thirweddau wedi'u dylunio
- ✓ Diddordeb archaeolegol
- ✓ Diddordeb hanesyddol
- ✓ Cysylltiad hanesyddol (e.e. gyda pherson neu ddigwyddiad lleol pwysig)
- ✓ Gwerth grŵp (gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w lleoliad)
- ✓ Gwerth cymdeithasol a chymunedol (cyfrannu at hynodrwydd lleol neu fod â gwerth ysbrydol)
- ✓ Oedran (gall hyn gynnwys pethau diweddar iawn - gweler yn ddiweddarach)
- ✓ Pa mor brin ydyw (efallai mai dyma'r unig un sydd ar ôl yn eich ardal chi)

Isod ceir enghraifft o ddisgrifiad a ffurflen sydd wedi'i chynhyrchu ar gyfer Cynllun yn Lloegr (gyda meini prawf ychydig yn wahanol). Nid yw'r llun wedi'i gynnwys yma.

Arolwg Asedau Treftadaeth Gymunedol	
Math o ased	Tafarn
Disgrifiad byr	Tafarn yng nghanol y dref – ond ar ben y Pentref Canol 19eg Ganrif. Cerrig a ffrynt anarferol gydag oriel i'r ffordd ochr sy'n wynebu'r cefn. Nodweddion o ddiddordeb Tafarn sy'n dal ar agor.

Maen prawf	Esboniad Byr
Oed	Sonnir amdani gyntaf ar fap Degwm y 1840au ac mae'n ymddangos yng nghyfrifiad 1861.
Pa mor brin	-
Diddordeb gweledol / esthetig	Enghraifft ddeniadol o Dafarn Fictoriaidd gynnar
Gwerth grŵp	Fel y Poacher gyferbyn, mae'n nodi diwedd arddull Fictoriaidd adeiladau ar y Stryd Fawr.
Diddordeb archaeolegol	-
Cysylltiad hanesyddol	Wedi bod yn dafarn erioed ac fe'i gelwid erioed yn The Plough. Mae'n siŵr y priodolir hyn i'r ffermydd ar ochr ddeheuol y dref ac a oedd gerllaw yn y dyddiau hynny.
Diddordeb tirwedd wedi'i ddylunio	-
Arall? Ychwanegol?	Tafarn sy'n cael ei chefnogi'n dda gan bobl drwy'r dydd. Adeilad deniadol sy'n eistedd ar y Stryd Fawr bron gyferbyn â The Poacher.

A dyma rai enghreifftiau o Gynllun Cymunedol o eitemau a gefnogir wedyn gan yr awdurdod lleol ac a ychwanegir i'w Rhestr Leol:


- Bloc mowntio ceffyl a chart
- Plac Yswiriant Sun Fire
- Arwydd coffa Rover y Ci
- Sedd goffa
- Lloches bws gwellt
- Y Pwmp, Stryd y Gorllewin,
- Blwch Post Coch ar bolyn
- Hen Orsaf Dân (tŷ peiriant)
- Yr Hen Ysgol
- Bin sbwriel Dalek (cyswllt â Dr. Who oherwydd defnyddiwyd y pentref ar gyfer ffilmio!)

Sut i'w wneud

- Mae datblygu rhestr gychwynnol yn dasg i grŵp o 3 neu 4 o bobl.
- Os oes gennych gymdeithas hanes lleol, gall fod yn dda eu cynnwys i wneud y gwaith.
- Os na, ond rydych chi'n gwybod am bobl frwd a gwybodus ar hanes lleol, anogwch nhw i ymuno â'r grŵp.
- Mae'n golygu llawer o gerdded o gwmpas, tynnu lluniau o nodweddion posibl ac ati, mapio'u lleoliadau ac yna – fel yn y canllawiau – gwirio gyda ffurflen wedi'i chwblhau fesul eitem) -p'un a ydynt yn bodloni meini prawf Cadw ai peidio.
- Mae llawer o sut i wneud hyn yn cael sylw yng nghanllawiau Cadw.

Enghraifft Ymarferol 6: Asesu a Chanllawiau'r Safle Datblygu

Y BROBLEM: Rydyn ni'n gwybod bod rhai safleoedd yn ein hardal yn mynd i gael eu datblygu, a gallai rhai newydd ddod ymlaen, felly sut allwn ni sicrhau bod yr holl ffactorau lleol allweddol yn cael eu hystyried a'r datblygiadau yn y pen draw yn iawn i ni ym mhob ffordd?



Ni fydd eich Cynllun yn gallu clustnodi safleoedd datblygu yn ffurfiol; CBSC fydd yn gwneud hynny. Mae nhw'n gwneud hyn ar sail eu hasesiadau safle eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Maint – a yw'r safle'n ddigon mawr i'w glustnodi?
- Lleoliad – a yw'r safle'n cysylltu'n dda â'r aneddiadau presennol?
- Cyfyngiadau megis: Risg llifogydd, dynodiadau amgylcheddol fel SSSI, SAC ac ati, Man agored, adeiladau rhestredig/ardal Cadwraeth, dosbarthiad Tir Amaethyddol.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd perchnogion tir ac asiantau wedi cyflwyno mwy o safleoedd nag sydd eu hangen ar y pryd ac mae hefyd yn brofiad cyffredin y gall dechrau datblygu eich Cynllun eich hun arwain at adnabod safleoedd posib eraill. Gallwch felly helpu CBSC i sicrhau'r dewis gorau posibl o safleoedd a sut y gallent gael eu datblygu orau drwy:

1. Gynhyrchu asesiadau trylwyr o safleoedd ychwanegol neu sydd newydd ddod i'r amlwg.
2. Cymryd asesiad CBSC o safleoedd sydd eisoes yn hysbys i fwy o fanylder, a mwy lleol.

1. Asesiadau o Safleoedd Ychwanegol neu Safleoedd Newydd

Mae gwefan Cynlluniau Cynefin Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnwys nodiadau a chanllawiau ymarferol iawn ar sut i wneud asesiadau (ewch i: https://www.placeplans.org.uk/en/?page_id=50). Dewiswch y blwch Asesu Safle ar y dudalen hon.

Mae'r ffurflenni Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnwys y tri maen prawf CBSC a nodir uchod ond yna maent yn mynd i fwy o fanylion. Os yw safle'n dod allan o'r asesiad hwn fel un addas neu a allai fod yn addas, gall CBSC (os ydynt yn cytuno!) wedyn ddefnyddio'ch gwybodaeth i nodi rhywfaint o ganllawiau allweddol ar gyfer datblygu'r safle - uchderau, pwyntiau mynediad, deunyddiau, mannau agored, parcio ac ati. Byddent wedyn yn cytuno ar y canllawiau hyn gyda chi.

PROFA FO! Casglu Tystiolaeth dan Arweiniad y Gymuned

2. Ychwanegu Manylion i Aseidiadau CBSC

Ar gyfer safleoedd sydd eisoes yn hysbys neu wedi'u clustnodi, gallwch gael mynediad at asesiad CBSC yna ychwanegu dim ond yr hyn sydd ar Ffurflen B ac ymlaen yng nghanllawiau Cymorth Cynllunio Cymru. Unwaith eto, byddent wedyn yn cytuno ar unrhyw ganllawiau gyda chi.

Sut i'w wneud

- Mae'n well i unrhyw safle gael ei asesu i ddechrau gan 3 o bobl, ac fe ddylai un ohonynt fod yn rhywun sy'n byw ger y safle.
- Mae'r asesiad yn cynnwys cerdded o amgylch y safle a'r ardal o'i amgylch, tynnu lluniau a llenwi ffurflen asesu (felly bydd angen ffurflenni, clipfyrddau, peniau, camera).
- Gallai hyn gymryd tua 1 awr.
- (Byddwch yn ofalus ynghylch mynd ar safle; mae'n debyg ei fod yn breifat).
- Yna dylid gwirio ffurflenni a'u cytuno gan Grŵp Llywio'r Cynllun cyfan.

Enghraifft Ymarferol 7: Cymeriad a Dylunio

Y BROBLEM: Mae gormod o ddatblygiadau diweddar yn ein hardal yn edrych fel pe gallent fod wedi'u cynllunio ar gyfer 'unrhyw lle'. Nid ydynt yn gweddu i gymeriad unigryw ein lle, nac yn ei barchu nac yn ychwanegu ato. Sut allwn ni sicrhau bod dyluniadau newydd yn briodol i'n lle, ein hardal a'n hadeiladau penodol ni?



Mae'n debyg mai dyma'r dasg a fydd yn cymryd y mwyaf o amser o'r holl dasgau sylfaenol, ond:

- Mae'n un o'r pwysicaf i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn parchu a hyd yn oed gwella cymeriad unigryw eich lle.
- Mae pob un o'r gwahanol agweddau yn hawdd i'w gwneud.
- Mae profiad yn dangos ei fod yn rhywbeth y mae pobl wir yn ei fwynhau.
- Dim ond **chi** sy'n gallu ei wneud; dim ond **chi** sy'n nabod **eich ardal eich hun** yn ddigon da!

Dyma sylw nodweddiadol gan grŵp cymunedol ar ôl gwneud asesiad Cymeriad a Dylunio:

'Mae'n syfrdanol; dydyn ni erioed wedi edrych ar ein hardal fel yna o'r blaen. Fe ddysgon ni gyd gymaint o'i wneud ac roedd o mor bleserus!'

Mae gwefan Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnwys nodiadau a chanllawiau ymarferol iawn ar sut i wneud asesiadau (ewch i:

https://www.placeplans.org.uk/en/?page_id=50). Dewiswch y blwch 'Asesu Cymeriad' ar y dudalen hon.

Mae canllawiau Cymorth Cynllunio Cymru yn awgrymu asesu tirwedd eich ardal Cyngor Cymuned gyfan a'ch anheddiad (neu aneddiadau lluosog os oes gennych fwy nag un brif dref/pentref). Ar gyfer eich Cynllun penodol chi, rydym yn awgrymu canolbwyntio ar anheddiad(au) oherwydd dyna lle, yn yr anheddiad neu ar ei ymyl, mae datblygiadau yn debygol o ddigwydd.

Fel y dywed y canllawiau, mae dau brif gam i asesu ar gyfer pob anheddiad:


- **Diffinio Ardaloedd Cymeriad.** Mae gan bron bob lle ardaloedd sy'n edrych ac yn teimlo'n wahanol, yn aml yn ganlyniad i'r adeg y cawsant eu hadeiladu (19^{eg} ganrif, rhwng 1918-1939, ar ôl y rhyfel, yn ddiweddar iawn ac ati) ond hefyd lle cawsant eu hadeiladu (yn y fflat, ar lethr, ar hyd ffordd, ger afon neu'r môr ac ati).
- **Asesu Ardaloedd Cymeriad:** Golwg fanwl sy'n dangos yn glir sut a pham mae pob ardal yn wahanol ac yn cynnig awgrymiadau am gymeriad priodol unrhyw ddatblygiad newydd.

Nawr pwynt allweddol: Mae'r hyn sy'n dilyn yn ddiweddarach yn cymryd pethau gam ymlaen o ganllawiau Cymorth Cynllunio Cymru drwy awgrymu sut y gallwch ddefnyddio'ch asesiad i dynnu allan '**Canllawiau**' bras ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Mae'r adran ar **Ardaloedd Cymeriad** yng nghanllawiau Cymorth Cynllunio Cymru yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r hyn sydd ei angen arnoch ond, gan adeiladu ar yr egwyddor graidd o uchafu'r nifer a'r ystod o bobl o'r gymuned sy'n ymwneud â'ch Cynllun, meddylwch am:

- Dod o hyd i ffordd o ofyn i lawer o bobl lunio eu hardaloedd cymeriad eu hunain ar fap - unwaith mae pobl yn dechrau maen nhw'n ei weld yn hynod ddiddorol.
- Efallai gofyn i grŵp arall sy'n adnabod eich ardal yn dda - e.e. grŵp hanes lleol neu grŵp cerdded - i gael eu holl aelodau i lunio mapiau.
- Gofyn i fyfyrwyr hŷn yn yr ysgol uwchradd leol (pawb neu ddim ond y rhai sy'n gwneud Daeryddiaeth) lunio mapiau.

Unwaith y byddwch chi wedi cytuno'n fras ar Ardaloedd Cymeriad ac i'ch helpu i gael 'teimlad' am sut y gallai'r canlyniadau edrych, dyma enghraifft o fap cryno cyffredinol:



Ffurflen yr **Arolwg Anheddiad** yng nghanllawiau Cymorth Cynllunio Cymru yw'r hyn y gallech ei ddefnyddio ar gyfer pob Ardal Cymeriad. Ar gyfer y prif drefi, efallai bydd 8 neu 10 Ardal Cymeriad felly, yn ddelfrydol, os gallwch chi, byddech yn dod o hyd i 2 neu 3 o bobl i wneud pob ardal. Gallai arolygu un ardal gymryd tua awr felly nid yw hyn yn ormod o waith i unrhyw unigolyn. Mae'r fformat a'r cwestiynau yn debyg i'r

rhai yn yr adran Asesu Safle (Enghraifft Ymarferol 6 uchod). Mae tynnu rhai lluniau'n hynod o bwysig, fel y gwelwch o'r enghraifft a gynhyrchwyd gan gymuned arall yn Lloegr:

Unwaith eto, dyma enghraifft o ddisgrifiad cryno o Ardal Cymeriad er ei bod yn hanfodol cefnogi hyn gyda set o luniau.

Zone 1: Historic core

Description

This is the medieval core of Frome, incorporating the main shopping area, including Catherine Street, together with an adjacent residential area to the north west, West End, a tiny, self-contained enclave of mid-nineteenth century houses.

This zone generally relates to Character area 1 of the Frome Conservation Area Appraisal and Renovation Proposals document.

Distinguishing features

- **Layout:** The zone, which covers the historic core of Frome with its medieval street pattern, lies around Market Place. Market Place occupies a relatively flat site beside the river, from which Stony Street and Bath Street rise up the hillside. West End is a tiny, self-contained enclave of mid-nineteenth century houses linked to the town centre by Cork Street, north of the town centre. Although outside the conservation area, the Westway Centre and Cork Street car park are included within this zone as they form part of the town centre retail core. Key features of the area are:
 - Market Place, the commercial core of the town, is the principal central space, being much wider than the other streets that radiate from it. It is almost entirely enclosed by listed buildings.
 - Cheap Street is particularly attractive with its central leat, a conduit of running water and remaining timber-framed sixteenth century buildings, recognisable from their jettied frontage.
 - Stony Street and Catherine Hill, a steep stone paved pedestrian area of specialist shopping lined with historic buildings.
 - With the exception of Market Place and Bath Street, the streets are narrow.
- The sweep of Bath Street, lined with smooth ashlar-faced stone three-storey buildings, embellished with classical motifs, contrasts markedly with the varied eaves line and narrow confines, for example, Cheap Street or Stony Street.
- **Uses:** This is the retail core of the town, but includes commercial and residential uses.
- **Landscape and open space:** This is the most compact and dense part of the town, with Market Place and the churchyard of St John's Church providing the only significant open space. Trees and vegetation are very limited in the town centre, with St John's Church providing the principal green space, although there are views of the vegetation along the railway and Welshmill Road and along the River Frome, which runs along part of its northern boundary.
- **Townscape:** The architectural character is rich and varied, with a large number of listed buildings dating from the sixteenth to the nineteenth centuries. Building height is greatest around Market Place but generally does not exceed three storeys, although The Crown Public House is four storeys and the Stroud and Swindon Building Society building is four-and-a-half storeys. West End is a quiet residential collection of relatively unaltered mid-Victorian houses set back behind well-tended front gardens.
- **Materials:** Many of the grander properties in the town centre, particularly on Bath Street and Market Place, are of smooth ashlar-faced stone. Others are of partly dressed Forest Marble for the walls, with external corners, window and door openings dressed in Bath stone or Doulting stone. Many of the stone work dressings have been inappropriately painted. Cheap Street contains some timber-framed sixteenth century buildings with jettied frontages. The roofing materials are a mix of red/brown paniles and slate. There are some exceptional examples of historic paving, old lighting columns and bollards in this area, particularly in Cheap Street. Other parts of the town centre have more modern materials, with macadam prevalent.

Canllaw Dylunio

Unwaith y bydd gennych eich canlyniadau o ran Ardaloedd Cymeriad ac asesiadau o bob ardal **fel y maen nhw ar hyn o bryd**, gall fod yn dda iawn symud ymlaen i gynnig rhywfaint o ganllawiau sylfaenol i ddatblygwyr y dyfodol a'u dylunwyr am yr hyn rydych chi'n credu sy'n ffactorau allweddol a fyddai'n addas ar gyfer adeiladau'r dyfodol.

Ni ddylai dylunwyr da fod angen hyn ond dylid eu hannog o hyd i edrych arno a dysgu o'ch holl waith asesu. Fodd bynnag, mae dylunwyr da braidd yn brin yn anffodus felly gall darparu mwy o awgrymiadau i'r dylunwyr sydd ddim cystal helpu llawer. Dylech osgoi gormod o fanylion felly dyma enghraifft ddefnyddiol o'r math o lefel o fanylion sydd wedi profi'n ddefnyddiol:

Canllaw Dylunio wedi'i baratoi o Aseiad Cymeriad

Building massing and layout

Buildings in Fulbourn have typically simple forms and features, and the character comes from the horizontal proportions and attractive diversity created by irregular building alignments and prominent roofs. Pale Cambridgeshire bricks or renders in white or natural colours are prevalent, with wood used for the doors and details. The integration of building and planting is critical.



Fig. 48 - Irregular building lines and pedestrian orientated streets



Fig. 49 - Car and cycle parking integrated in the site design



Fig. 50 - Lane and alleyways preferable than engineered streets



Fig. 51 - Pedestrian orientated street design with trees and low level lighting



Fig. 52 - Planted street achieved without deep front gardens



Fig. 53 - Planted frontage minimising visual impact of garage doors

Details and materials that make Fulbourn special

In Fulbourn, the character and quality of the village is often in the details: traditional boundary walls, gates and posts, and in elegant simple arrangements for the doors and windows.



Fig. 54 - Traditional back and flit walls - a distinctive feature of the village - used to define the edge of private spaces



Fig. 56 - Attractive combination of simple details: traditional gate, wall and trees enriching local character and screening parking



Fig. 58 - Contemporary porch and store cupboard with traditional wall



Fig. 59 - Simple modern details concealing the utility boxes